LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

# Cynhwysiant WOW

2025/26



Mae WOW yn gwobrwyo disgyblion sy'n teithio'n llesol i'r ysgol (cerdded, troelli, beicio, sgwtera, 'Parcio a Cherddded' neu ddod oddi ar y trên/bws yn gynt) gyda bathodynnau WOW. Fodd bynnag, rydym yn deall nad yw hynny'n opsiwn i bawb ac felly rydym yn ceisio addasu WOW yn y sefyllfaoedd hyn, fel bod gan bob disgybl gyfle i ennill bathodyn WOW.



## BETH SY'N DIGWYDD OS NA ALL PLENTYN DEITHIO'N LLESOL I'R YSGOL?



Dylid annog disgyblion sy'n byw yn bell o'r ysgol ac na allan nhw deithio'n llesol yr holl ffordd i ddweud wrth eu rhieni/gofalwyr am yr opsiwn i 'Barcio a Cherdded'.

Efallai na fydd rhai disgyblion yn gallu teithio'n llesol i'r ysgol byth. Rydym yn awgrymu eich bod chi'n gosod her ar wahân i'r rhai sydd ag amgylchiadau eithriadol (megis anabledd, defnyddio tacsis preifat ac ati). Mae WOW yn fenter i gynyddu cyfraddau teithio llesol i'r ysgol, felly defnyddiwch ddewisiadau amgen dim ond pan na fydd opsiwn i ddisgyblion deithio'n llesol.





## ISOD MAE RHAI AWGRYMIADAU AR GYFER HERIAU AMGEN



### GALLAI DISGYBLION:

- Greu hysbysfwrdd teithio llesol
- Siarad mewn gwasanaeth ysgol am WOW/manteision teithio llesol
- Dod yn Llysgennad WOW
- Helpu gyda chyfrif/dosbarthu bathodynnau
- Cerdded i'r siopau neu i'r parc ar y penwythnos gyda'r teulu
- Cerdded am 10 munud ar yr iard yn ystod y diwrnod ysgol

Os ydych chi'n gosod her ar wahân i ddisgybl, cofnodwch y dull teithio gwirioneddol ar Draciwr Teithio WOW fel bod y data'n gywir. Yn adran mewngofnodi'r gweinyddwr ar gyfer Traciwr Teithio WOW, gallwch chi ddyfarnu bathodyn i unrhyw blentyn eich hun.

**0 BATHODYN WEDI'I DDYFARNU**

Mae 0 disgybl wedi cyrraedd y targed misol ac wedi ennill bathodyn.

Mae 0 disgybl wedi ennill bathodyn drwy ei ddyfarnu eich hun.

ARGRAFFU POB DOSBARTH

ARGRAFFU DOSBARTH A DDEWISWYD

| EICON DISGYBLION | LABEL | CYNNYDD I GYRRAEDD BATHODYN WOW | WYTHNOSAU LLESOL Y MIS HWN | BATHODYNNAU A ENILLWYD HYD YN HYN | DYFARNU BATHODYN |
|---|---|---|---|---|---|
| | Afal | | 1/5 | 0 | DYFARNU BATHODYN EICH HUN |
| | Badminton | | 1/5 | 0 | DYFARNU BATHODYN EICH HUN |
| | Pêl | | 1/5 | 0 | DYFARNU BATHODYN EICH HUN |
| | Balŵn | | 0/5 | 0 | DYFARNU BATHODYN EICH HUN |



**livingstreets.org.uk/wowlaunch**

Mae'r daflen hon wedi'i chynhyrchu gydag inciau sy'n defnyddio llysiau. Mae wedi'i chreu o ddeunydd o goedwigoedd sydd wedi'u rheoli'n dda ac sydd wedi'u hardystio gan FSC® ac o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

FSC MIX Paper FSC® C113442

@LIVINGSTREETS LIVINGSTREETSUK LIVINGSTREETS

**Ni yw Living Streets elusen y DU dros gerdded bob dydd**

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru'r Cwmni 5368409.